

# WRU HUB PROGRAMME
# RHAGLEN HWB URC

Summer 2023 Newsletter

Haf 2023 Cylchlythyr

#WRUHub

# RWC Activation / Cychwyn Cwpan Rygbi'r Byd

As part of the build-up to the rugby world cup in France we are asking for hub officers and schools to engage via participation events and social. Throughout the next few months please share your impact across the game via #AllezLesRouges #FfiordiFfrainc #WRUHub

Ideas include.

- Rebranding transition events as part of the rugby world cup by asking schools or classes to adopt a country for the event.
- Recreate your favourite World Cup try or moment with your pupils in a rugby session.
- Engage in the content via the WRU Digital Classroom
- Send a good luck message to the team @welshrugbyunion @WRU_Community and we will share your message!

Fel rhan o'r paratoadau ar gyfer cwpan rygbi'r byd yn Ffrainc, rydym yn gofyn i'r swyddogion hwb ac ysgolion gymryd rhan mewn digwyddiadau cyhoeddus a chymdeithasol. Dros y misoedd nesaf, rhannwch eich effaith ar draws y gêm drwy #AllezLesRouges #FforddiFfrainc #WRUHub #HwbURC

Dyma rai syniadau:

- Ailfrandio digwyddiadau pontio fel rhan o gwpan rygbi'r byd drwy ofyn i ysgolion neu ddosbarthiadau fabwysiadu gwlad ar gyfer y digwyddiad.
- Ail-greu eich hoff gais neu eiliad o Gwpan y Byd gyda'ch disgyblion mewn sesiwn rygbi.
- Cymryd rhan yn y cynnwys drwy Ystafell Ddosbarth Ddigidol URC
- Anfon neges yn dymuno pob lwc i'r tîm @welshrugbyunion @WRU_Community a byddwn yn rhannu eich neges!

# Summer Series Tickets / Tocynnau Cyfres yr Haf

Tickets are still available for the Summer Series with games against England on 5th August and South Africa on the 19th August. Details have been shared directly with individual contact in the establishments and for those who engage in the opportunity we will be drawing winners of 5 bespoke Macron kits.

Mae tocynnau ar gael o hyd ar gyfer Cyfres yr Haf gyda gemau yn erbyn Lloegr ar 5 Awst a De Affrica ar 19 Awst. Mae manylion wedi'u rhannu'n uniongyrchol â chyswllt unigol yn y sefydliadau, ac i'r rhai sy'n cymryd rhan yn y cyfle byddwn yn tynnu enillwyr 5 pecyn Macron pwrpasol.

# Macron Schools Offer / Cynnig Macron ar gyfer Ysgolion

Secondary schools, colleges, and universities had until 16th June to express interest in a GIFT of KIT from Macron. The final offer will be confirmed directly by Macron from w/c July 3rd.

Mae gan ysgolion uwchradd, colegau a phrifysgolion tan 16 Mehefin i fynegi diddordeb mewn CIT yn RHODD gan Macron. Bydd y cynnig terfynol yn cael ei gadarnhau'n uniongyrchol gan Macron o'r wythnos yn dechrau 3 Gorffennaf.



# National Training Days / Diwrnodau Hyfforddiant Cenedlaethol

On 19th and 20th July, we are inviting hub officers to the Urdd centre in Llangrannog to help celebrate the impact of the programme nationally whilst also looking forward to next year. We have keynote speakers from throughout the WRU that will deliver topics that include the Welsh Language, ED & I, People, Promote and Playing.


We will be asking WRU staff to nominate hub officers to join a Q&A on each of the headlines of our strategy. There are also several activities that we can choose from - Zip wire, Jump bag, High ropes course, Climbing and Abseil wall, Skiing, Toboganning, Go Karts and Archery.

Please confirm attendance, dietary requirements and activities using the following link: National Hub Training

Ar 19 a 20 Gorffennaf, rydym yn gwahodd swyddogion hwb i ganolfan yr Urdd yn Llangrannog er mwyn helpu i ddathlu effaith y rhaglen yn genedlaethol, gan edrych ymlaen at y flwyddyn nesaf hefyd. Mae gennym siaradwyr allweddol o bob rhan o URC a fydd yn cyflwyno pynciau sy'n cynnwys y Gymraeg, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, Pobl, Hyrwyddo a Chwarae.

Byddwn yn gofyn i staff URC enwebu swyddogion hwb i ymuno â sesiwn Holi ac Ateb ar bob un o benawdau ein strategaeth. Ceir hefyd nifer o weithgareddau y gallwn ddewis o'u plith – Weiren wib, Bag neidio, Cwrs rhaffau uchel, Wal Ddringo ac Abseilio, Sgïo, Toboganio, Go Karts a Saethyddiaeth.

Cadarnhewch eich presenoldeb, eich anghenion deietegol a'ch gweithgareddau gan ddefnyddio'r ddolen ganlynol: Hyfforddiant Hwb Cenedlaethol




# Yr 1 Update & Reports Deadline / Diweddariad ac Adroddiadau Bl 1 – Dyddiad Cau

Following the collation of reports in Term 2 and end of the 2022/23 season we are pleased to celebrate the support and transition of 2019 boys and 695 girls to the clubs game. This represents 47% of all new registrations for boys and 67% of all new registrations for girls in WRU Clubs & Female Hubs supported by the WRU Hub Programme. Alongside delivering across People, Playing and Promote it shows the direct impact the programme has in our game. The full infographic is included in this email.

To close the loop on 2022/23 we are asking hub officers to complete their Term 3 reports by Friday 14th July. This will allow us to present the full impact to officers on 19th/20th July but to also prepare the 2023/24 reports for the summer holidays.

Ar ôl casglu adroddiadau yn nhymor 2 a diwedd tymor 2022/23 rydym yn falch o ddathlu cefnogaeth a throsglwyddiad 2019 o fechgyn a 695 o ferched i gêm y clybiau. Mae hyn yn cynrychioli 47% o'r holl gofrestriadau newydd ar gyfer bechgyn a 67% o'r holl gofrestriadau newydd ar gyfer merched yng Nghlybiau a Hybiau Merched URC a gefnogir gan Raglen Hwb URC. Ochr yn ochr â darparu ar draws Pobl, Chwarae a Hyrwyddo mae’n dangos yr effaith uniongyrchol y mae’r rhaglen yn ei chael ar ein gêm. Mae'r ffeithlun llawn wedi'i gynnwys yn yr e-bost hwn.

I ddirwyn 2022/23 i ben, rydym yn gofyn i’r swyddogion hwb gwblhau eu hadroddiadau Tymor 3 erbyn dydd Gwener 14 Gorffennaf. Bydd hyn yn ein galluogi i gyflwyno'r effaith lawn i swyddogion ar 19/20 Gorffennaf ond hefyd i baratoi adroddiadau 2023/24 ar gyfer gwyliau'r haf.



# WRU HUB PROGRAMME – KPI UPDATE – AUGUST 2022 TO MARCH 2023

## PLACES

99 ESTABLISHMENTS

1295 FEMALE HUB ENGAGEMENTS

4623 CLUB ENGAGEMENTS

2269 PLAYER PIPELINE ENGAGEMENTS

230 COACHING DEVELOPMENT SESSIONS

EVIDENCE THE **IMPACT** OF THE **HUB PROGRAMME**

DIRECT BENEFIT TO WRU IS £1,025,000 THIS YEAR TO DATE

PROMOTE £320,000
PLAYING £525,000
PLACES £115,000
PEOPLE £65,000

## PARTNERS

69 SECONDARY SCHOOLS

4 UNIVERSITIES

16 REGIONAL PARTNERSHIPS

7 COLLEGES

9 ALN SPECIFIC ESTABLISHMENTS


## PLAYING

25% CAPTIVE AUDIENCE ENGAGED OUTSIDE OF CURRICULUM

6276 GIRLS & 11207 BOYS ENGAGED IN ESTABLISHMENTS

8987 PRIMARY SCHOOL CHILDREN ENGAGED

2019 BOYS & 673 GIRLS NEW TRANSFERS



## PEOPLE

266 BOYS & 95 GIRLS DELIVERING ON 4440 OCCASIONS

114 BOYS & 30 GIRLS REFEREEING 722 GAMES

109 BOYS & 39 GIRLS VOLUNTEERING 594 TIMES

## PROMOTE

152 *Fit, fed, fun!* CAMPS

4591 ALN SESSIONS

SUPPORTED BY HUB OFFICERS

EVERY ATTENDANCE AT AN **INCLUSION EVENT** FROM A **HUB OFFICER** PROVIDES **5 STUDENTS** TO SUPPORT DELIVERY

# RHAGLEN HWB URC - DIWEDDARIAD PERFFORMIAD ALLWEDDOL – AWST 2022 I FAWRTH 2023

## LLEOEDD

99 SEFYDLIAD

1295 MENYW YN YMGYSYLLTU Â'R HWB

4623 YMGYSYLLTIAD CLWB

2269 YMGYSYLLTIADAU CHWARAEWR ADDAWOL

230 SESIWN DATBLYGU HYFFORDDIANT

TYSTIOLAETH EFFAITH BUDD UNIONGYRCHOL RHAGLEN URC YW £1,025,000 HYD YN HYN ELENI

## PARTNERIAID

69 YSGOL UWCHRADD

4 PRIFYSGOL

16 PARTNER RHANBARTHOL

7 COLEG

9 SEFYDLIAD ADY PENODOL

HYBU £320,000

CHWARAE £525,000

LLEOEDD £115,000

POBL £65,000


## CHWARAE

25% O'R GYNULLEIDFA YN YMGYSYLLTU Y TU ALLAN I'R CWRICWLWM

6276 MERCH A 11207 BACHGEN YN YMGYSYLLTU MEWN SEFYDLIADAU

8987 PLENTYN YSGOL GYNRADD WEDI EU CYRRAEDD

2019 BACHGEN a 673 MERCH NEWYDD YN TROSGLWYDDO



## POBL

266 BACHGEN A 95 MERCH YN CYFLAWNI AR 4440 ACHLYSUR

114 BACHGEN A 30 MERCH YN DYFARNU 722 GÊM

109 BACHGEN a 39 MERCH YN GWIRFODDOLI 594 GWAITH

## HYBU

152 *Ffit, bwydo a hwyl!* DIGWYDDIADAU CYMUNEDOL

4591 SESIWN ADY

CEFNOGWYD GAN SWYDDOGION HWB

MAE POB PRESENOLDEB MEWN DIGWYDDIAD CYNHWYSIANT GAN SWYDDOG HWB YN DARPARU 5 MYFYRIWR I GEFNOGI DARPARIAETH.

HWB RYGBI HUB RUGBY HWB RYGBI HUB RUGBY WRU

# Hub Survey

We are currently collating feedback from the Hub Officer Survey that was completed by our 100 officers. This feedback helps us to shape the programme and support we offer to individual officers. As part of this we will develop the topics for Hub Officer training days and the resources we provide via the hub education centre.

The headline topics for the 6 days of WRU training are as follows;

- People – Educator Training
- People – CPD target age groups – calendar / content / planning – NEW
- Playing – EPP content – Regional (possibly outside CPD days) – NEW
- Playing – W&G best practice / pathway / menstrual cycle awareness – NEW
- Promote – Fit, Fed, Fun best practice! – NEW
- Promote – Disability CPD with DC
- Integrity – Integrity training with LC
- Integrity – Concussion (world rugby course vs WRU TBC) – online
- Admin – Strategy, Reports & Ops Plan update (BR)
- Admin – Social Media awareness – NEW

The top priorities to be updated in Hub Educations Centre are;

- Induction days for new officers
- Transition and retention CPDs for clubs
- W&G awareness and best practice
- Social Media best practice



# Arolwg yr Hwb

Rydym wrthi'n casglu adborth o Arolwg y Swyddogion Hwb a gwblhawyd gan ein 100 o swyddogion. Mae'r adborth hwn yn ein helpu i lunio'r rhaglen a'r cymorth a gynigiwn i swyddogion unigol. Fel rhan o hyn byddwn yn datblygu'r pynciau ar gyfer diwrnodau hyfforddi Swyddogion Hwb a'r adnoddau a ddarparwn drwy ganolfan addysg yr hwb.

Mae'r prif bynciau ar gyfer y 6 diwrnod o hyfforddiant URC fel a ganlyn:

- Pobl – Hyfforddiant Addysgwyr
- Pobl – Grwpiau oedran targed DPP – calendr / cynnwys / cynllunio – NEWYDD
- Chwarae – Cynnwys EPP – Rhanbarthol (o bosibl y tu allan i ddiwrnodau DPP) – NEWYDD
- Chwarae – Arferion gorau i Fenywod a Merched / llwybr / ymwybyddiaeth o'r cylch mislif – NEWYDD
- Hyrwyddo – Arferion gorau Ffit, Bwydo a Hwyl! – NEWYDD
- Hyrwyddo – DPP anabledd gyda DC
- Uniondeb – Hyfforddiant uniondeb gydag LC
- Uniondeb – Cyfergyd (cwrs rygbi'r byd yn erbyn URC i'w gadarnhau) – ar-lein
- Gweinyddiaeth – Diweddariad ar Strategaeth, Adroddiadau a Gweithrediadau (BR)
- Gweinyddiaeth – Ymwybyddiaeth o'r Cyfryngau Cymdeithasol – NEWYDD

Y prif flaenoriaethau i'w diweddaru yng Nghanolfan Addysg yr Hwb yw:

- Diwrnodau cynefino ar gyfer swyddogion newydd
- DPP pontio a chadw ar gyfer clybiau
- Arferion gorau i Fenywod a Merched ac ymwybyddiaeth ohonynt
- Arferion gorau ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol



# Yr 2 KPIs / Ops Plan Process

In the coming weeks WRU Rugby Officers and Coach Development Officers will be booking in conversations with Hub Establishments to agree the Ops Plan for 2023/24 ahead of the new season.

Here are the documents to support you in this process (attached)

## Dangosyddion Perfformiad Allweddol Bl 2 / Proses y Cynllun Gweithredol

Dros yr wythnosau nesaf, bydd Swyddogion Rygbi a Swyddogion Datblygu Hyfforddwyr URC yn trefnu sgyrsiau gyda Sefydliadau Hwb i gytuno ar y Cynllun Gweithredol ar gyfer 2023/24 cyn y tymor newydd.

Dyma’r dogfennau i’ch cefnogi yn y broses hon (wedi’u hatodi)

# Impact stories from Establishments

By working with Open University, we hope to evidence the impact of the programme on individuals. Engaging with 5 schools this year we aim to run a pilot for 2023/24 involving 10 establishments. To highlight the impact from this year please tell us a story from your establishment. Can you tell us the impact the officer has had on a individual, club or community?

Use the attached link to provide feedback: [Hub Impact Stories]



## Straeon effaith gan Sefydliadau

Gan weithio gyda'r Brifysgol Agored, rydym yn gobeithio dangos tystiolaeth o effaith y rhaglen ar unigolion. Gan ymgysylltu â phum ysgol eleni, ein nod yw cynnal cynllun peilot ar gyfer 2023/24 yn cynnwys 10 sefydliad. I bwysleisio’r effaith eleni, dywedwch stori wrthym o'ch sefydliad. A allwch ddweud wrthym yr effaith y mae’r swyddog wedi’i chael ar unigolyn, clwb neu gymuned?

Defnyddiwch y ddolen atodedig i roi adborth: Straeon Effaith Hwb

## WRU Fit Fed Fun and summer engagement / Ffit, Bwydo, Hwyl URC a gweithgareddau ymgysylltu yn ystod yr haf

During the summer holidays we are looking to engage 1000s of children throughout Wales. Our engagements will involve attending National events such as the Eisteddfod, Royal Welsh Show and Tafwyl. However, most importantly we are asking Hub Officers to help tackle holiday hunger through support of WLGA Food and Fun programmes and WRU We SODA Fit Fed Fun Camps. Mobilising the workforce, we will deliver rugby and food to over 20,000 children. Thanks for your support.

Yn ystod gwyliau’r haf, rydym yn awyddus i ennyn diddordeb miloedd o blant ledled Cymru. Bydd ein gweithgareddau ymgysylltu’n cynnwys mynd i ddigwyddiadau Cenedlaethol, fel yr Eisteddfod, Sioe Frenhinol Cymru a Tafwyl. Fodd bynnag, yn bwysicaf oll, rydym yn gofyn i’r Swyddogion Hwb helpu i fynd i’r afael â llwgu yn ystod y gwyliau drwy gefnogi rhaglenni Bwyd a Hwyl Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a gwersylloedd Ffit, Bwydo a Hwyl We Soda URC. Gan ddefnyddio’r gweithlu, byddwn yn darparu rygbi a bwyd i dros 20,000 o blant. Diolch am eich cefnogaeth.





# Diolch